AROLWG THEMATIG O UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION A DARPARIAETH DEBYG

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
www.estyn.gov.uk

Cynnwys Tudalen

1. Cyflwyniad 4

2. Prif ganfyddiadau 6

3. Argymhellion 8

4 Gwybodaeth gefndirol 10

5. Darpariaeth gyfredol mewn UCDau ac unedau anghofrestredig 15

6. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu mewn UCDau ac unedau anghofrestredig yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion? 18

7. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i'r disgyblion mewn UCDau ac unedau anghofrestredig? 22

8. Pa mor dda y mae AALlau yn rheoli UCDau ac unedau anghofrestredig? 24

9. Pa mor dda y mae AALlau yn olrhain disgyblion heb le mewn ysgol i sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl addysgol llawn ac i sicrhau y diogelir eu lles? 29

Atodiad: Cyfeiriadau 31

1. Cyflwyniad

1.1 Diben

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi cyngor yn unol â chylch gorchwyl Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cyngor yn cyfrannu at godi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru at gynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal fel a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' ym mis Awst 2001.

Mae'r adroddiad:

- yn nodi ac yn arfarnu'r addysg y mae awdurdodau addysg lleol (AALlau) yn ei darparu yn eu hunedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac unedau tebyg, ond anghofrestredig, ar gyfer disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol amser llawn;
- yn cymharu'r ddarpariaeth yng Nghymru â'r ddarpariaeth yn Lloegr;
- yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth yng Nghymru; ac
- yn cyfrannu gwybodaeth at adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o gylchlythyr 3/99: Cymorth i Ddisgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol.

1.2 Cwestiynau allweddol

Mae'r adroddiad yn ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- Pa drefniadau y mae'r AALlau yn eu gwneud i addysgu disgyblion nad ydynt yn mynychu ysgol amser llawn mewn UCDau cofrestredig ac mewn darpariaeth arall nad yw'n rhan o ysgol neu goleg?

- Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu mewn UCDau ac unedau anghofrestredig yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion?

- Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddisgyblion mewn UCDau?

- Pa mor dda y mae AALlau yn rheoli UCDau ac unedau anghofrestredig?

- Pa mor dda y mae AALlau yn olrhain disgyblion heb le mewn ysgol i sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl addysgol llawn ac y diogelir eu lles?

1.3 Sail dystiolaeth

Mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar wybodaeth a geir o'r ffynonellau canlynol:

- Papur sefyllfa Estyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar UCDau, dyddiedig 26 Tachwedd 2002;

- gwybodaeth a gasglwyd gan AEM yn y cyfnod 1999-2001 ynghylch unedau AALl heb eu cofrestru fel UCDau;

- adroddiadau cyhoeddedig o arolygiadau adran 10 o UCDau;

- gwybodaeth ystadegol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

- arfarniad Estyn o effaith arian GCAH ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad;

- arfarniad Estyn o effaith darpariaeth cwricwlwm amgen yng Nghymru;

- gwybodaeth o arolygiadau Ofsted o UCDau ac unedau anghofrestredig yn Lloegr;

- cyngor Estyn ar effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer gweithredu cynlluniau addysg personol ar gyfer plant y gofelir amdanynt, cyfnodau allweddol 1 i 3;

- cyngor Estyn ar ddarpariaeth AALlau ar gyfer addysg merched beichiog yn eu harddegau a rhieni ifanc; ac

- arolwg o'r holl UCDau ac unedau eraill y tu allan i'r ysgol yng Nghymru yn nhymor yr haf, 2004.

Ar gyfer yr arolwg hwn, darparodd pob AALl yng Nghymru fanylion ysgrifenedig o UCDau yr awdurdod ac o'r unedau anghofrestredig y maent yn eu rheoli'n uniongyrchol. Rhoddwyd gwybodaeth ganddynt am nifer, oedran, rhyw ac anghenion disgyblion ar y gofrestr ym mis Mai 2004 a hefyd am staff eu hunedau. Archwiliwyd y wybodaeth hon mewn trafodaethau ym mhob AALl rhwng swyddogion AALl ac Arolygydd Ardal Estyn ar gyfer yr AALl. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar agweddau ar reolaeth, cynllunio, adnoddau a chwricwlwm UCDau ac unedau anghofrestredig.

2. Prif ganfyddiadau

2.1 Cofrestru ac arolygu unedau

- Mae AALlau yn cynnal UCDau ac unedau anghofrestredig ar 81 gwahanol safle.

- Cofrestrir unedau ar 30 o'r safleoedd hyn fel UCDau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a chawsant eu harolygu yn y cyfnod 1998 i 2002.

- Mae AALlau yn dynodi'r unedau ar 20 safle pellach fel UCDau. Fodd bynnag, nid yw'r safleoedd hyn ar gofrestr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, o ganlyniad, ni chawsant eu cynnwys mewn arolygiadau adran 10.

- Nid yw AALlau yn dynodi'r unedau ar y 31 safle sy'n weddill fel UCDau, er eu bod bron i gyd yn cydweddu â'r diffiniad cyfreithiol o UCD. Mae'r unedau hyn yn anghofrestredig ac felly y tu allan i gwmpas arolygiadau Adran 10.

- Mae AALlau yn darparu addysg amser llawn neu ran-amser ar gyfer 1601 o ddisgyblion mewn UCDau ac unedau anghofrestredig. Rhoir dau o bob tri o'r disgyblion hyn yn y 50 uned y mae AALlau yn eu hystyried yn UCDau. Addysgir y gweddill yn y 31 uned sydd heb eu dynodi'n UCDau.

- Mae AALlau yn gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ychwanegol mewn UCDau ac unedau anghofrestredig ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 y mae angen cwricwlwm amgen arnynt. Rhoir ychydig o'r ddarpariaeth hon ar gontract i ddarparwyr allanol, fel arfer fel rhan o'r Fenter Mynediad Ieuenctid.

2.2 Anghenion disgyblion

- Yn aml, y disgyblion a roir mewn UCDau ac unedau anghofrestredig yw'r rheiny sy'n wynebu anfanteision addysgol a chymdeithasol sylweddol. Mae rhai wedi'u gwahardd yn barhaol o ysgolion; mae llawer o'r gweddill mewn perygl o gael eu gwahardd.

- Mae pedwar o bob pum disgybl mewn unedau yn fechgyn, y gellir disgrifio'r rhan fwyaf ohonynt yn anystywallt.

- Mae gan gyfran uchel o ddisgyblion lefel wael o gyrhaeddiad mewn medrau sylfaenol. Mae gan un o bob pum disgybl mewn UCDau ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

- Ychydig o ddisgyblion sy'n dychwelyd yn gynnar i'r ysgol o UCD. Mae disgyblion hŷn yn trosglwyddo'n fwy aml i goleg neu leoliadau hyfforddiant nag i ysgolion.

2.3 Ansawdd y ddarpariaeth

- Mae nifer o nodweddion da yn perthyn i'r cwricwla mewn UCDau ac unedau anghofrestredig, ond mae iddynt hefyd rai diffygion pwysig. Yn hyn o beth, mae'r canfyddiadau yng Nghymru yn debyg iawn i'r rheiny yn Lloegr.

- Mae UCDau ac unedau anghofrestredig yn rhoi cyfleoedd dysgu da i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dymuno trosglwyddo i gyrsiau galwedigaethol mewn coleg neu i hyfforddiant seiliedig ar waith yn lle dychwelyd i'r ysgol.

- Mae'r diffygion yng nghwricwla ac adnoddau dysgu UCDau ac unedau anghofrestredig yn rhoi disgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 a rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 dan anfantais mewn perthynas â disgyblion mewn ysgolion ac yn cyfyngu eu cyfleoedd ar gyfer dilyniant mewn rhai pynciau.

- Nid yw'r cwricwlwm a'r cymorth sydd ar gael mewn llawer uned yn bodloni anghenion addysgol arbennig disgyblion bob amser.

- Mewn UCDau ac unedau anghofrestredig, caiff disgyblion ofal, arweiniad a chymorth da yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae yna ddiffygion mewn arferion iechyd a diogelwch, ac mewn polisïau i hyrwyddo cyfle cyfartal.

2.4 Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Mae AALlau yn wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu lleoedd digonol, priodol i ddisgyblion a addysgir y tu allan i'r ysgol. Mae'r galw am leoedd bob amser yn fwy na'r cyflenwad.

- Mae swyddogion AALl yn annog ysgolion ac unedau i weithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn cynllunio addysg addas ar gyfer disgyblion a galluogi disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl. Mae'r nod hwn yn profi'n anodd iawn i'w gyflawni yn ymarferol.

- Nid yw athrawon mewn ysgolion prif ffrwd yn cymryd digon o ddiddordeb yng nghynnydd eu disgyblion sy'n trosglwyddo i UCDau ac unedau anghofrestredig.

- Ar hyn o bryd, nid oes digon o gysylltiadau rhwng ysgolion ac unedau a gynhelir gan AALlau. Lle y bo cysylltiadau effeithiol, maent yn fwy aml gydag ysgolion cynradd prif ffrwd nag ysgolion uwchradd.

- Nid yw AALlau yn gwneud digon i fonitro neu arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a wnânt mewn UCDau ac unedau anghofrestredig, nac ansawdd y ddarpariaeth a brynant trwy gontract gyda darparwr allanol.

- Nid oes systemau effeithiol gan o leiaf dau o bob tri AALl ar gyfer olrhain darpariaeth addysgol a chynnydd disgyblion nad ydynt ar gofrestri ysgol.

- Ychydig o awdurdodau sy'n darparu'r hawl 25 awr lawn i bob disgybl a waherddir.

3. Argymhellion

3.1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- orfodi'r gofyniad i AALlau gofrestru'r holl safleoedd fel UCDau lle maent yn cynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol heblaw mewn ysgolion prif ffrwd, arbennig neu feithrin ac i ddarparu gwybodaeth flynyddol am newidiadau i'r ddarpariaeth hon;

- darparu gwybodaeth flynyddol i Estyn am yr holl safleoedd y mae AALlau yn eu cofrestru fel UCDau;

- mewn partneriaeth ag AALlau, monitro ac arfarnu'r canlyniadau addysgol i ddisgyblion a gaiff eu haddysg y tu allan i'r ysgol;

- adolygu, gydag ACCAC, y fframwaith statudol yn llywodraethu gofyniad y cwricwlwm ar gyfer UCDau er mwyn sicrhau bod yna gyfleoedd dysgu cyfartal i bob disgybl; a

- chasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig pob disgybl sy'n cael addysg y tu allan i'r ysgol, a'r ddarpariaeth a wna AALlau i fodloni'r anghenion hynny.

3.2 Dylai awdurdodau addysg lleol:

- gofrestru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yr holl safleoedd lle maent yn cynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol heblaw mewn ysgolion prif ffrwd, arbennig neu feithrin;

- cadw rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru am newidiadau i'r ddarpariaeth hon;

- egluro diben UCDau a'u lle mewn perthynas â darpariaeth arall, gan gynnwys strategaethau cwricwlwm amgen a allai gynnwys darparwyr allanol;

- monitro ac arfarnu ansawdd yr addysg y mae UCDau yn ei darparu;

- monitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a wneir dan drefniadau rhoi contractau i ddarparwyr allanol;

- gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddarparu addysg amser llawn i bob disgybl;

- datblygu systemau effeithiol i olrhain disgyblion heb le mewn ysgol;

- gweithredu polisi o gofrestru deuol fel y gall disgyblion mewn UCDau gynnal cysylltiad â'u hysgolion;

- annog ysgolion ac UCDau i weithio'n agosach gyda'i gilydd i fonitro ac arfarnu'r cynnydd a wna disgyblion;

- darparu'r cymorth a'r adnoddau gweinyddol, technegol a chwricwlwm angenrheidiol i UCDau;

- sicrhau bod eu gwaith gwella ysgolion yn cynnwys strategaethau clir i leihau nifer y disgyblion ag AAA a waherddir;

- sicrhau y gall UCDau fodloni anghenion addysgol arbennig disgyblion yn llawn;

- adolygu'r arfer iechyd a diogelwch mewn UCDau, gan sicrhau bod yr asesiadau risg priodol yn eu lle;

- sicrhau bod gan staff UCD fynediad i ystod lawn o gyfleoedd hyfforddiant, yn enwedig o ran amddiffyn plant; a

- sicrhau bod gan UCDau y polisïau gofynnol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â hil, rhyw ac anabledd.

3.3 Dylai ysgolion:

- gadw disgyblion sy'n trosglwyddo i UCDau ar y gofrestr, a monitro eu cynnydd;

- rhoi gwell gwybodaeth i UCDau am anghenion dysgu disgyblion pan fyddant yn trosglwyddo;

- mewn partneriaeth â'r AALl, monitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a wnânt ar gyfer eu disgyblion trwy drefniadau rhoi contractau i ddarparwyr allanol; a

- gwella'r cysylltiadau rhwng athrawon mewn ysgolion ac UCDau.

3.4 Dylai Estyn:

- sicrhau bod y rhaglen arolygu yn cynnwys pob safle y mae AALlau yn eu cofrestru fel UCDau; ac

- adolygu anghenion hyfforddi arolygwyr yng ngoleuni'r cynnydd disgwyliedig yn nifer yr UCDau i'w harolygu.

4. Gwybodaeth gefndirol

Mae cwmpas yr arolwg yn cynnwys yr holl unedau a reolir yn uniongyrchol gan AALlau er mwyn darparu addysg amser llawn neu ran-amser i ddisgyblion. Nid yw rhai o'r disgyblion hyn ar gofrestr unrhyw ysgol, tra bod eraill wedi'u cofrestru'n ddeuol.

Gofynnodd yr arolwg am fanylion pob UCD gofrestredig ac uned anghofrestredig arall.

4.1 Fframwaith cyfreithiol

Mae Adran 19 Deddf Addysg 1996 yn delio â darpariaeth eithriadol addysg mewn UCDau neu fannau eraill.

Mae Adran 19(1) yn nodi:

Bydd pob awdurdod addysg lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol ar gyfer y plant hynny o oedran gorfodol na fydd, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni wneir trefniadau felly ar eu cyfer.

Mae Adran 9 Deddf Addysg 1997 yn rhoi dyletswydd ar AALlau i nodi mewn Cynllun Cymorth Ymddygiad y trefniadau ar gyfer addysg plant y tu allan i'r ysgol. Yn ogystal, rhaid i AALlau ystyried yr arweiniad yng Nghylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Cymorth i Ddisgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol.

Ers mis Medi 2002, bu'n ofynnol i AALlau sicrhau bod pob disgybl a waherddir o'r ysgol am fwy na 15 diwrnod yn cael addysg amser llawn a phriodol.

Mae Cynlluniau Cymorth Ymddygiad yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth a wna'r AALl y tu allan i ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, gwersi gartref ac addysg i ferched beichiog a rhieni ifanc. Gelwir y ddarpariaeth hon yn gasgliadol fel addysg y tu allan i'r ysgol (EOTAS).
Gall y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion unigol gynnwys cyfuniad o:

- bresenoldeb rhan-amser mewn ysgol brif ffrwd;
- gwersi mewn UCD neu uned debyg;
- darpariaeth gan sefydliadau gwirfoddol;
- lleoliad mewn coleg AB;
- lleoliad gwaith; a
- gwersi gartref.

Gall AALlau wneud darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig fel rhan o ddarpariaeth EOTAS. Mae Cod Ymarfer AAA Cymru, paragraff 8.92, yn nodi bod:

Adran 319 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi'r grym i'r AALl drefnu ar gyfer gwneud rhywfaint neu'r cyfan o ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig disgybl y tu allan i'r ysgol. Byddai trefniadau o'r fath yn cynnwys addysg mewn uned cyfeirio disgyblion, gwersi gartref neu addysg sy'n adlewyrchu hyblygrwydd cyfnod allweddol 4.

4.2 Unedau Cyfeirio Disgyblion

Mae Adran 19(2) Deddf Addysg 1996 yn diffinio UCD fel unrhyw ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan AALl a drefnir yn benodol i ddarparu addysg i blant na fydd, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod ac nad yw'n ysgol (gymunedol) sirol neu'n ysgol arbennig.

Dan Adran 29(1) Deddf 1996, rhaid i AALlau roi gwybod i'r Cynulliad pan sefydlir UCD newydd neu caeir UCD bresennol, ond nid oes unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar gyfer agor neu gau UCDau. Mae'r Cynulliad yn cadw cofrestr o UCDau. Ym mis Ionawr 2003, roedd yna 30 UCD gofrestredig yng Nghymru. (Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ysgolion yng Nghymru, Ystadegau Cyffredinol 2003).

Nododd llythyr y Cynulliad at AALlau ym mis Hydref 1999:

'Mae'r Cynulliad o'r farn y dylid rhestru unrhyw uned sy'n dod â phlant o'r fath at ei gilydd at ddiben darparu addysg ran-amser (o unrhyw hyd) fel UCD. Gall unedau o'r fath gynnwys unrhyw uned sy'n dod â phlant ynghyd sy'n cael addysg gartref am gyfnod byr bob wythnos neu uned sy'n darparu ar gyfer categori penodol o ddisgyblion fel merched ysgol beichiog neu famau yn eu harddegau.'

Ni ystyrir bod darpariaeth ar y cyd, fel dosbarth neu ysgol ysbyty, yn UCD, nac ychwaith gynlluniau a ariennir yn benodol, er enghraifft, dan y Fenter Mynediad Ieuenctid.

Bwriad UCDau yw darparu lleoliad tymor byr fel cynllun wrth gefn a dylai disgyblion, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ddychwelyd i ysgol gynradd, uwchradd neu arbennig, neu gael eu paratoi i'w trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth a fwriedir. Yn ymarferol, mae disgyblion ar gyfartaledd fel arfer yn aros yn hirach na'r lleoliad tymor byr. Nid yw disgyblion a waherddir yn barhaol yng nghyfnod allweddol 4 yn aml yn ailintegreiddio'n llwyddiannus i ysgol brif ffrwd ac mae yna broblemau sylweddol gyda disgyblion iau.

4.3 Disgyblion a waherddir

Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn SDR 20/2004: Gwahardd o Ysgolion yng Nghymru, 2002-03, yn dangos bod grwpiau penodol o ddisgyblion yn cael eu gwahardd o ysgolion yn amlach na disgyblion eraill. Mae'r grwpiau hyn o ddisgyblion felly'n fwy tebygol nag eraill i dderbyn addysg y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys lleoliad mewn UCD neu uned debyg.

- Bechgyn yw 80% o'r holl waharddiadau parhaol a thymor sefydlog.
- Mae gan ysgolion arbennig gyfradd wahardd sydd ddwywaith gymaint â chyfradd ysgolion uwchradd prif ffrwd a phedair gwaith gymaint â'r ffigur cenedlaethol.
- Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd yn cyfrif am 40% o waharddiadau parhaol a 30% o'r holl waharddiadau tymor sefydlog.

Mae Cylchlythyr 1/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn rhoi arweiniad sy'n seiliedig ar reoliadau a wnaed dan Adran 52 Deddf Addysg 2002. Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi'r hawl i bob disgybl 11 oed a throsodd a waharddwyd o ysgolion ac UCDau gael gwybod yn ffurfiol am ei waharddiad ac i apelio. Nid yw'r hawliau hyn yn ymestyn i ddisgyblion a waherddir o fathau eraill o ddarpariaeth addysgol.

4.4 Disgyblion mewn UCDau

Rhyw

Fel a ddisgwylir o'r data gwahardd, mae llawer mwy o fechgyn na merched mewn UCDau.

Ceir crynodeb o'r duedd tair blynedd yn nifer y disgyblion y mae awdurdodau lleol yn hysbysu'r Cynulliad eu bod ar gofrestr mewn UCDau yn nhabl 1 isod.

Dyddiad	Bechgyn wedi'u cofrestru unwaith	Bechgyn wedi'u cofrestru'n ddeuol	Cyfanswm y bechgyn	Merched wedi'u cofrestru unwaith	Merched wedi'u cofrestru'n ddeuol	Cyfanswm y merched	Cyfanswm
Ion 01	348	387	735	87	119	206	941
Ion 02	374	354	728	106	99	205	933
Ion 03	331	451	782	80	137	217	999

Tabl 1: Tuedd tair blynedd mewn disgyblion ar gofrestr mewn UCDau

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ysgolion yng Nghymru, Ystadegau Cyffredinol 2002 a 2003

Anghenion addysgol arbennig

Eto, fel a ddisgwylir o'r ffigyrau gwahardd, mae gan gyfran uchel o ddisgyblion a roir mewn UCDau anghenion addysgol arbennig. Ym mis Ionawr 2003, roedd gan 21% o ddisgyblion (24% o'r bechgyn a 11% o'r merched) a oedd ar gofrestr mewn UCDau cofrestredig ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur cenedlaethol o 3.4% ar gyfer pob disgybl gyda datganiadau.

Nid oes unrhyw wybodaeth gyhoeddedig am nifer y disgyblion mewn UCDau sydd ag anghenion addysgol arbennig y dylid gwneud darpariaeth ar eu cyfer gan "weithredu gan yr ysgol" neu "weithredu gan yr ysgol a mwy". Nid oes ychwaith unrhyw ddadansoddiad o'r mathau o angen addysgol arbennig disgyblion mewn UCDau. Fodd bynnag, mae'n debygol bod anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn agwedd arwyddocaol ar anghenion addysgol arbennig rhan fwyaf y disgyblion hyn.

4.5 Arolygu UCDau ac unedau anghofrestredig

Arolygiadau Adran 10

Arolygir y categorïau canlynol o ysgol dan Adran 10 Deddf Arolygiadau Ysgol 1996, fel a ddiwygiwyd gan ddeddfwriaeth fwy diweddar:

- ysgolion cymunedol;
- ysgolion sylfaen;
- ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir;
- ysgolion meithrin a gynhelir;
- ysgolion arbennig; ac
- unedau cyfeirio disgyblion.

Ni ellir arolygu unedau anghofrestredig dan Adran 10 Deddf 1996.

Rhaid arolygu pob ysgol o fewn chwe blynedd o ddiwedd y flwyddyn ysgol y cafodd ei harolygu ddiwethaf. Rhaid cynnal arolygiadau gan dimau o arolygwyr, gyda phob un dan arweinyddiaeth arolygydd cofrestredig, a rhaid iddynt arwain at adroddiad ysgrifenedig. Rhaid i arolygwyr cofrestredig adrodd ar:

- y safonau addysgol a gyflawnir gan yr ysgol;
- ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol;
- ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgol a'r rheolaeth o'r ysgol, gan gynnwys a gaiff yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol eu rheoli'n effeithlon; a
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn yr ysgol.

Arolygiadau ardal

Mae Deddf Addysg 2002 yn galluogi Estyn i gynnal arolygiadau ardal o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 oed a throsodd, gan gynnwys effeithiolrwydd y ddarpariaeth a wna AALlau mewn UCDau ac unedau anghofrestredig.

Arolygiadau awdurdod lleol

Mae Adran 38 Deddf Addysg 1997 yn galluogi Estyn i arolygu unrhyw awdurdod lleol. Bydd arolygiad o'r fath 'yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn perfformio unrhyw swyddogaeth…sy'n gysylltiedig â darpariaeth addysg ar gyfer (a) pobl o oedran ysgol gorfodol (yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) pobl o unrhyw oedran uwchlaw neu islaw'r oedran hwnnw a gofrestrir fel disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'.

Yn ogystal, ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol, gall y Prif Arolygydd arolygu darpariaeth addysg ieuenctid neu oedolion yr awdurdod lleol dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Gall arolygiad o'r fath ddigwydd ar yr un pryd ag arolygiad dan Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Gall arolygiadau o waith awdurdodau lleol i gefnogi mynediad, cynhwysiant a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ac o waith Partneriaethau Pobl Ifanc, gynnwys ymweliadau ag UCDau'r awdurdod ac ag unedau anghofrestredig.

5. Darpariaeth gyfredol mewn UCDau ac unedau anghofrestredig

5.1 Unedau cyfeirio disgyblion

Roedd y wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan swyddogion AALl ar gyfer arolwg mis Mai 2004 yn nodi o leiaf 81 gwahanol safle yng Nghymru lle mae disgyblion yn derbyn addysg y tu allan i'r ysgol, naill ai'n rhan-amser neu amser llawn.

Disgrifiodd swyddogion AALl 50 o'r safleoedd hyn fel UCDau, ffigur sy'n llawer mwy na'r 30 a oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cynulliad ym mis Ionawr 2003.

Roedd yr 20 safle UCD a ystyriwyd yn UCDau ond nad oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cynulliad naill ai'n:

- safleoedd newydd a ychwanegwyd at ddarpariaeth UCD gofrestredig bresennol i ddarparu ar gyfer galw ychwanegol;
- unedau a fu ar agor ers tipyn ond a gofrestrwyd yn ddiweddar; neu
- newidiadau cyfeiriad ar gyfer UCDau sefydledig.

Roedd rhai awdurdodau, yn enwedig Sir y Fflint a Sir Ddinbych, wedi cofrestru sawl safle gyda'i gilydd fel un UCD 'portffolio'.

5.2 Unedau anghofrestredig

Ni ystyrir 31 o'r safleoedd a nodwyd gan awdurdodau yn yr arolwg hwn fel UCDau ac nid ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Cynulliad. Ymddangosir bod yr unedau anghofrestredig a gynhelir gan rai awdurdodau yn gwneud darpariaeth debyg iawn i'r ddarpariaeth honno a wneir mewn UCDau cofrestredig mewn mannau eraill. Mae llawer o'r unedau anghofrestredig yn amlwg yn cydweddu'n agos â'r diffiniad cyfreithiol o UCD.

Yn nodweddiadol, mae unedau anghofrestredig yn darparu:

- 'gwersi gartref' i grwpiau o ddisgyblion;
- y cyfan neu ran o'r cwricwlwm amgen yng nghyfnod allweddol 4; ac
- addysg i ferched beichiog a rhieni ifanc.

5.3 Ystod y ddarpariaeth

Mae llawer o'r UCDau a'r unedau anghofrestredig yn darparu ar gyfer disgyblion mewn mwy nag un cyfnod allweddol. Ar y cyfan, mae yna ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yng:

- nghyfnod allweddol 1 mewn 11 uned;
- cyfnod allweddol 2 mewn 21 uned;
- cyfnod allweddol 3 mewn 60 uned;

- cyfnod allweddol 4 mewn 57 uned; a'r
- grŵp oedran ôl-16 mewn un uned.

Mae 78 uned yn gwneud darpariaeth ar gyfer bechgyn a merched, er bod llawer mwy o fechgyn na merched ar gofrestri. Mae un uned yn darparu ar gyfer bechgyn yn unig, ac mae dwy o'r UCDau cofrestredig yn gwneud darpariaeth arwahanol ar gyfer merched beichiog.

5.4 Diben y ddarpariaeth

Mae awdurdodau'n defnyddio eu UCDau ac unedau eraill i ddarparu addysg i ddisgyblion:

- sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol;
- yr ystyrir eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd;
- sydd yn anystywallt;
- sydd ag anawsterau cymdeithasol ac ymddygiad;
- sydd â phroblemau emosiynol a/neu iechyd meddwl, yn enwedig gofid a gwrthod yr ysgol;
- sy'n feichiog neu'n rhieni ifanc; neu
- sydd ag anghenion meddygol neu therapiwtig arbennig.

Mae'r meini prawf ar gyfer lleoliad mewn UCDau ac unedau anghofrestredig yn amrywio o un awdurdod i'r llall. Mewn rhai AALlau, mae gan unedau ddisgyblion ar eu cofrestri a fyddai mewn ysgolion arbennig neu dan ofal meddygol arbenigol mewn AALlau eraill.

Mae AALlau yn aml yn defnyddio eu UCDau ac unedau tebyg i ddarparu rhywfaint o'r cwricwlwm amgen ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mewn rhai achosion, mae AALlau yn defnyddio arian canolog mewn cydweithrediad ag ysgolion i ddatblygu gweithgareddau sy'n cynnwys darparu cymorth ychwanegol yn yr unedau hyn a gweithgareddau ar y cyd yn cynnwys y Fenter Mynediad Ieuenctid.

I rai disgyblion, mae UCD yn lleoliad anaddas. Er enghraifft, pan roddir disgybl a waharddwyd o ysgol arbennig mewn UCD, mae'n annhebygol y bydd y cymorth arbenigol a restrir yn natganiad o anghenion addysgol arbennig y disgybl ar gael.

Darganfu arolwg Estyn o ddarpariaeth ar gyfer merched beichiog a mamau ifanc nad oedd unrhyw fanteision a sawl anfantais i leoliad mewn UCD gyffredinol neu uned arall sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anawsterau eraill, er bod lleoliad mewn uned ar wahân yn aml yn fuddiol iddynt.

5.5 Disgyblion

Dengys y wybodaeth ystadegol a ddarparwyd gan AALlau i'r Cynulliad ym mis Ionawr 2003 fod 999 o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn UCDau, yr oedd 411 ohonynt wedi'u cofrestru mewn UCDau yn unig a 588 ohonynt wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn UCD ac mewn ysgol. Nid yw'r wybodaeth gyhoeddedig yn dangos faint o ddisgyblion a gofrestrir yn ddeuol sydd yn mynychu ysgol yn ogystal ag UCD mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n debygol fod mwyafrif y disgyblion a gofrestrir yn ddeuol yn derbyn y rhan fwyaf o'u darpariaeth addysgol, neu'r cyfan ohoni, yn yr UCD.

Yn yr arolwg presennol, adroddodd AALlau eu bod, ym mis Mai 2004, yn addysgu 1601 y tu allan i'r ysgol. O'r disgyblion hyn, roedd 1065 yn derbyn rhan neu'r cyfan o'u haddysg mewn UCDau cofrestredig, neu mewn unedau a ddynodwyd fel UCDau gan AALlau ond nad oedd wedi'u cofrestru gyda'r Cynulliad. Roedd y 536 o ddisgyblion eraill mewn unedau eraill nad oedd yr AALlau yn eu hystyried yn UCDau, ac nad oeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cynulliad.

Yn ogystal, roedd 605 o ddisgyblion yn mynychu prosiectau Mynediad i'r Ifanc mewn tri awdurdod. Mewn un awdurdod, rheolwyd y ddarpariaeth ar gyfer 52 o'r disgyblion hyn yn uniongyrchol fel rhan o UCD gofrestredig. Fodd bynnag, yn y ddau awdurdod arall, gwnaeth yr awdurdod y ddarpariaeth trwy gontract â darparwr allanol.

6. Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu mewn UCDau ac unedau anghofrestredig yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion?

6.1 Gofynion cwricwlwm

Mae Deddf Addysg 1993 yn mynnu bod y cwricwlwm mewn UCDau yn gytbwys ac yn eang. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i UCDau ddarparu mynediad i ddisgyblion i'r Cwricwlwm Cenedlaethol llawn. Mae deddfwriaeth gysylltiedig ag arweiniad statudol wedi sefydlu y dylai'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 gynnwys:

- addysg gyrfaoedd;
- profiad gwaith;
- addysg grefyddol; ac
- addysg ryw.

Mae'r arweiniad diweddaraf yng Nghylchlythyr 1/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Addysg y Tu Allan i'r Ysgol. Mae'n nodi bod: :

Hyblygrwydd cwricwlwm yn galluogi AALlau ac ysgolion i sicrhau y treulir mwy o amser ar weithgareddau sy'n anelu at roi sylw i anghenion unigol disgyblion. Fodd bynnag, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg ddigonol i gael y cyfleoedd gorau posibl i gael achrediad ffurfiol. Dylid cyflwyno'r addysg hon gan ystyried yr angen am arddulliau dysgu amrywiol, gwahaniaethu a/neu gwricwlwm wedi'i addasu.

I rai disgyblion, bydd yn fuddiol treulio amser ychwanegol yn gwella galluoedd llythrennedd a rhifedd. Bydd hyn yn gymorth iddynt ddysgu'n fwy effeithiol mewn lleoliad prif ffrwd, a chyda hynny, cael mynediad i gwricwlwm ehangach. Dylai'r cwricwlwm gynnwys Saesneg, Cymraeg i ddisgyblion a addysgir mewn ysgol Gymraeg, mathemateg ac, i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1 i 3, gwyddoniaeth.

I ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol, dylid ystyried sicrhau bod y cwricwlwm mor eang â phosibl a'i fod yn cynnwys elfennau fel celf, drama, dylunio a thechnoleg yn ogystal â rhyw fath o addysg gorfforol. Dylid ystyried hefyd darparu cydbwysedd rhwng gwaith unigol a gwaith grŵp ac addasu hyn cymaint â phosibl i anghenion disgyblion unigol.

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi arweiniad yn ddiweddar iawn sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed: Cylchlythyr 37/2004 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau.

Mae'r canllawiau'n nodi bod gan ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed hawl i gwricwlwm, trwy lwybr dysgu unigol, sy'n cynnwys cydbwysedd o ddysgu ffurfiol, dewis ehangach, hyblygrwydd a chraidd dysgu, ynghyd â chymysgedd unigryw o gymorth i fodloni anghenion dysgwyr.

Mae Cylchlythyr 37/2004 yn nodi y dylai'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed mewn unrhyw leoliad (oni chaiff ei ddatgymhwyso'n ffurfiol), o fis Medi 2004, gynnwys:

- Saesneg;
- Cymraeg (fel iaith gyntaf neu ail iaith);
- mathemateg;
- gwyddoniaeth;
- addysg gorfforol;
- addysg grefyddol;
- addysg ac arweiniad gyrfaoedd;
- addysg bersonol a chymdeithasol; ac
- addysg seiliedig ar waith.

6.2 Canfyddiadau arolygiadau

Cymru

Yn ystod y cyfnod 1998 i 2002, cynhaliodd Estyn arolygiadau Adran 10 mewn 28 UCD. Yn yr UCDau hyn, darganfu arolygwyr fod ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm yn nodwedd dda o'r ddarpariaeth. Dyma oedd y gwendidau cyffredin:

- diffyg adeiladau ac adnoddau arbenigol, yn enwedig mewn pynciau ymarferol, creadigol ac esthetig;
- nid oedd llawer o unedau yn cynnig darpariaeth addas mewn cerddoriaeth;
- dim llawer o addysgu Cymraeg fel ail iaith;
- cwmpas cyfyngedig gwaith mewn hanes a daearyddiaeth; ac
- nid oedd llawer o UCDau yn addysgu addysg grefyddol.

Nid oes gan Estyn unrhyw dystiolaeth arolygiad Adran 10 yn gysylltiedig ag unedau sydd heb eu cofrestru fel UCDau, nac ar gyfer UCDau cofrestredig y mae awdurdodau wedi hysbysu'r Cynulliad amdanynt yn ddiweddar.

Darganfu arolwg Estyn 'Datblygiadau yn y Cwricwlwm Amgen ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4' fod yr addasiadau i'r cwricwlwm yn lleiaf effeithiol lle nad yw AALlau yn glir am y berthynas rhwng rhaglenni cwricwlwm diwygiedig, y ddarpariaeth mewn UCDau a strategaethau anghenion addysgol arbennig. Darganfu arolygwyr hefyd wendidau yn addysgu medrau sylfaenol mewn rhai prosiectau cwricwlwm amgen.

Adroddodd arolwg o Ddarpariaeth AALl ar gyfer Merched Beichiog yn eu Harddegau a Rhieni Ifanc (Estyn, 2003) fod darpariaeth mewn UCD neu uned arwahanol ar gyfer mamau ifanc yn boblogaidd iawn gyda menywod ifanc a oedd heb y cymhelliant i barhau â'u haddysg hyd yn oed cyn beichiogi. Ychydig o'r unedau hyn all ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys o ansawdd uchel yn gyson. Fodd bynnag, mae llawer o'r menywod ifanc yn hoffi mynychu unedau a addasir i weddu i'w hamgylchiadau.

Lloegr

Mae canfyddiadau arolygiadau yn Lloegr yn debyg iawn i'r rheiny yng Nghymru.

Yn adroddiad Ofsted (2003) o'r enw "Key Stage 4: towards a flexible curriculum", mae AEM yn Lloegr yn arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed mewn 14 UCD a chanolfannau a reolir gan AALlau sydd â nodweddion unedau cyfeirio disgyblion ond sydd heb eu cofrestru'n ffurfiol fel y cyfryw'.

Darganfu arolygwyr fod y cwricwlwm a gynigiwyd yn yr unedau a'r canolfannau yn gyffredinol gyfyngedig ac yn aml nad oedd y disgyblion yn gweithio tuag at gymwysterau cydnabyddedig. Pan yr oeddent, roedd agweddau at ddysgu yn amlwg yn well ac roedd cyflawniad yn uwch. Roedd addysg ac arweiniad gyrfaoedd yn aml yn hwyr, wedi'i diffinio'n gul neu'n rhanedig.

Roedd y cyfleoedd dysgu mewn UCDau cofrestredig, yn enwedig yn y rheiny oedd yn darparu ar gyfer merched beichiog a mamau ifanc, yn gyffredinol well na'r rheiny a oedd ar gael mewn canolfannau anghofrestredig.

6.3 Canfyddiadau'r arolwg

Darganfu'r arolwg cyfredol fod gan y cwricwla mewn UCDau ac unedau eraill yn gyffredinol nifer o nodweddion da ond hefyd rhai diffygion pwysig.

Nodweddion da

- addysgir canran uchel o'r cwricwlwm gan athrawon cymwys;
- ceir trefniadau da i ddysgwyr gael achrediad ar lefel fynediad, gan gynnwys gwobrau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Gwobrwyo (ASDAN);
- mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 yn cael mynediad i bron pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- mae rhaglenni dysgu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn aml wedi'u cynllunio'n dda ac yn bodloni galluoedd a diddordebau unigol disgyblion;
- rhoir sylw da i bynciau craidd Saesneg a mathemateg;
- caiff disgyblion gyfleoedd da i wella'u medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd;
- mae'r ddarpariaeth dda o ABCh yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, weithiau mewn cydweithrediad â gweithwyr ieuenctid, yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau personol a chymdeithasol;
- caiff dysgwyr gyfleoedd da ar gyfer profiad gwaith ac addysg seiliedig ar waith;

- caiff disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 fynediad i gyfleoedd dysgu a ddarperir gan golegau AB, darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd;
- mae rhai unedau'n cynnig cyfleoedd da ar gyfer addysg awyr agored, gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin; ac
- mae un awdurdod yn gwneud darpariaeth ragorol i ddisgyblion weithio gyda mentrau cymunedol, a chydag artistiaid ac ysgrifenwyr preswyl.

Diffygion:

- yn gyffredinol, mae diffyg adnoddau yn yr unedau i gyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys;
- mae'r ffocws ar fedrau sylfaenol yn cyfyngu'r amser sydd ar gael i addysgu pynciau sylfaen;
- ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i weithio ar gyfer TGAU mewn ystod eang o bynciau;
- mae cyfleoedd dysgu mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yn gyfyngedig gan nad oes digon o adnoddau ar gyfer gwaith ymarferol ac arbrofol;
- mae cyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau wrth ddefnyddio TGCh yn gyfyngedig gan nad oes digon o adnoddau;
- nid oes llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu i ddysgu Cymraeg fel ail iaith;
- nid yw'r cwricwlwm yn rhoi digon o sylw i'r Cwricwlwm Cymreig;
- caiff disgyblion gyfleoedd cyfyngedig iawn i ddysgu iaith dramor fodern;
- nid yw'r unedau'n rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu dealltwriaeth ysbrydol neu ddiwylliannol;
- yn anaml y mae unedau'n addysgu addysg grefyddol neu'n trefnu addoli ar y cyd;
- nid yw'r unedau'n rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy; ac
- nid oes digon o ddefnydd o waith cartref i gefnogi dysgu ac ychydig gyfleoedd a geir ar gyfer dysgu y tu allan i oriau.

Mae UCDau ac unedau eraill yn dda wrth fodloni anghenion a dyheadau'r disgyblion hynny yng nghyfnod allweddol 4 nad ydynt yn bwriadu dychwelyd i'r ysgol. Mae gan y disgyblion hyn fynediad i gyfleoedd dysgu sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer trosglwyddo i gyrsiau galwedigaethol mewn coleg neu hyfforddiant seiliedig ar waith.

Mae'r diffygion yng nghwricwlwm ac adnoddau dysgu UCDau ac unedau eraill yn rhoi rhai grwpiau o ddisgyblion dan anfantais mewn perthynas â disgyblion mewn ysgolion ac yn cyfyngu eu cyfleoedd ar gyfer dilyniant mewn rhai pynciau.

Gwasanaethir anghenion a diddordebau disgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 i 3, a rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, orau trwy ddychwelyd yn gynnar i'r ysgol. Mae angen mynediad i'r un ystod o gyfleoedd dysgu ag sydd ar gael fel arfer mewn ysgolion ar y disgyblion hyn. Dylai hyn gynnwys y

Cwricwlwm Cenedlaethol llawn, wedi'i wahaniaethu'n addas i ystyried anghenion dysgu unigol disgyblion, neu, yn achos disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, llwybr dysgu priodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r disgyblion hyn bob amser yn cael eu hawl.

Mae disgyblion gyda datganiadau o angen addysgol arbennig sy'n mynychu UCDau ac unedau eraill yn derbyn cwricwlwm mwy cyfyngedig nag sydd ar gael mewn ysgol brif ffrwd neu arbennig. Nid yw hyn yn foddhaol.

7. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddisgyblion mewn UCDau ac unedau anghofrestredig?

7.1 Canfyddiadau arolygiadau

Darganfu'r arolygiadau Adran 10 o UCDau yng Nghymru yn y cyfnod 1998 i 2002 fod cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion yn dda yn hanner o'r unedau ac yn foddhaol yn y gweddill. Darparodd UCDau gefnogaeth effeithiol i helpu disgyblion i wella eu presenoldeb a'u hymddygiad yn yr unedau.

Roedd y gefnogaeth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol o ansawdd amrywiol. Roedd yn fwyaf effeithiol pan yr oedd y disgyblion yn aros ar gofrestri eu hysgolion cartref, a lle'r oedd yr ysgol honno'n gweithio'n agos â'r uned. Ar y cyfan, roedd cysylltiadau rhwng ysgolion uwchradd ac unedau yn rhy wan i gefnogi dychweliad y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Yn 2003, darganfu arolwg Ofsted o UCDau ac unedau eraill yn Lloegr fod disgyblion, yn y ddarpariaeth orau yr ymwelwyd â hi, yn elwa'n sylweddol ar y sylw a'r gefnogaeth bersonol a gawsant. Roedd eu hagweddau, eu presenoldeb a'u hymddygiad yn gwella a gwnaethant ailgysylltu â dysgu.

7.2 Canfyddiadau arolwg

Mae UCDau ac unedau tebyg yn darparu gofal, arweiniad a chefnogaeth dda i ddisgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae'r disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi fel unigolion. Caiff disgyblion gefnogaeth ac arweiniad personol a dargedir yn ofalus. Mewn ymateb, mae eu hagweddau, eu cymhelliant, eu cyflawniad a'u cynnydd yn gwella a datblygant falchder yn eu cyflawniadau.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r sylw a'r anogaeth unigol y mae aelodau o staff yn eu rhoi. Mae llawer o ddisgyblion yn amharod i ystyried dychwelyd i ysgol brif ffrwd gan eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn unedau ac yn ofni y byddent yn cael llai o gefnogaeth bersonol yn ôl yn yr ysgol.

Nododd yr arolwg lawer o nodweddion da sy'n nodweddiadol o arfer gyfredol:

- mae gan unedau bolisïau disgyblaeth ac ymddygiad effeithiol y mae disgyblion yn eu deall;
- hyfforddir aelodau o staff mewn gwrando ar blant a phobl ifanc. Cynigiant gyngor a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion;
- mae gan unedau raglenni sefydlu da i ddisgyblion newydd. Maent yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd;
- mae yna gysylltiadau da gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhai unedau'n cynnig cefnogaeth uniongyrchol i rieni i'w helpu i wella eu medrau magu plant;
- mae yna fonitro da o bresenoldeb ac ymddygiad, gyda chefnogaeth briodol gan Swyddogion Lles Addysg (SLlA) lle y bo angen. Mae disgyblion yn gwybod bod disgwyl iddynt fynychu'n rheolaidd ac yn brydlon;

- mae yna lawer o enghreifftiau o gefnogaeth dda i ddisgyblion unigol gydag anghenion penodol, fel darparu brecwast a bws mini i'r ysgol;
- caiff rhan fwyaf y disgyblion gefnogaeth effeithiol gan arbenigwyr sy'n ymweld. Gall hyn gynnwys gweithio gyda Seicolegwyr Addysgol, er enghraifft, ar faterion sy'n gysylltiedig â bwlio;
- mae gan ddisgyblion gwell mynediad i ofal iechyd, gwybodaeth a chyngor nag y cawsant yn eu hysgolion;
- mae yna gefnogaeth effeithiol gan Gyrfa Cymru sy'n helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus; ac
- mae unedau'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i wella'r cwricwlwm ABCh. Mae llawer uned yn darparu cyrsiau arbenigol, fel rheoli dicter, sy'n gwella medrau cymdeithasol ac ymddygiad disgyblion.

Mae yna ddiffygion mewn rhai agweddau ar y ddarpariaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal ac mewn arferion iechyd a diogelwch:

- nid oes gan bob uned y polisi gofynnol ar gyfer cyfartaledd hiliol;
- nid yw'r unedau wedi gwneud llawer o gynnydd wrth hyrwyddo hygyrchedd ar gyfer pobl anabl;
- yn anaml y mae unedau'n cynnal asesiadau iechyd a diogelwch neu asesiadau risg systematig; ac
- nid yw pob aelod o staff yn cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau amddiffyn plant.

8. Pa mor dda y mae AALlau yn rheoli UCDau ac unedau anghofrestredig?

8.1 Polisi a chynllunio

Mae gan swyddogion AALl farn glir a phriodol am y cysylltiadau rhwng eu polisïau a chynlluniau strategol ar gyfer UCDau ac unedau tebyg, a'u cynlluniau ehangach i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol disgyblion diamddiffyn, gan gynnwys plant y gofelir amdanynt. Er bod swyddogion yn dechrau gweithio'n agosach gyda rhwydweithiau lleol eraill, gan gynnwys Partneriaethau Pobl Ifanc, nid yw'r cysylltiadau hyn wedi'u datblygu ddigon.

Mae rhai awdurdodau yn gwneud defnydd da o arbenigedd aelodau o staff mewn UCDau i ddarparu cymorth allymestyn wedi'i dargedu i ddysgwyr iau, gyda'r nod o atal eu gwaharddiad o'u hysgolion prif ffrwd.

Mae AALlau yn adrodd eu bod yn wynebu heriau sylweddol wrth gynllunio lleoedd digonol, priodol i ddisgyblion a addysgir y tu allan i'r ysgol, a bod y galw am leoedd bob amser yn fwy na'r cyflenwad. Mae nifer o swyddogion yn nodi na all eu hawdurdod lleol flaenoriaethu arian i ddarparu'r hawl addysgol llawn ac ansawdd priodol addysg ar gyfer pob disgybl y mae angen addysg y tu allan i'r ysgol arno.

Mae'n debygol bod sawl ffactor yn gysylltiedig â'r galw cynyddol am leoedd mewn unedau, ac felly â'r cynnydd a gofnodwyd yn nifer yr unedau cofrestredig ac anghofrestredig a'r cynnydd yn nifer gyffredinol y disgyblion. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- y gofyniad i ddarparu 25 awr o addysg bob wythnos;
- y cynnydd yn niferoedd y disgyblion a waherddir o ysgolion am gyfnodau sefydlog;
- y twf o ran galw am drefniadau cwricwlwm amgen yng nghyfnod allweddol 4; a'r
- anhawster wrth symud disgyblion ymlaen o unedau i ysgolion prif ffrwd neu arbennig.

Mae'n anodd i AALlau gynllunio darpariaeth newydd o gystal ansawdd â'r ansawdd sydd ar gael mewn ysgol. Ychydig iawn o benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion prif ffrwd sy'n croesawu cynigion i agor UCD ar safle eu hysgolion. O ganlyniad, mae AALlau yn gwneud y ddarpariaeth ychwanegol angenrheidiol mewn lleoliadau eraill, sy'n aml yn llawer llai priodol.

Fel rhan o ddatblygu darpariaeth cwricwlwm amgen, mae rhai AALlau ac ysgolion yn mynd i gontractau gyda sefydliadau yn y sector gwirfoddol i wneud darpariaeth y tu allan i'r ysgol i rai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys disgyblion a waherddir yn barhaol. Nid yw AALlau ac ysgolion yn gwneud digon i fonitro ansawdd y ddarpariaeth hon nac i bennu a yw'n darparu gwerth am arian.

8.2 Strwythurau rheolaeth

Mae bron pob AALl yn bodloni'r gofyniad yng Nghylchlythyr 3/99: Cymorth i Ddisgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol i gael pwyllgorau rheolaeth ar gyfer yr UCDau y maent yn gyfrifol amdanynt ac i sicrhau bod ganddynt ffocws amlasiantaeth. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i AALlau gael trefniadau cymesur yn eu lle ar gyfer eu hunedau anghofrestredig.

Fel arfer, mae gan bwyllgorau rheolaeth ystod briodol o aelodau sy'n cynrychioli'r gymuned leol, gan gynnwys penaethiaid a chynghorwyr sir, er nad oes llawer o gynrychiolaeth i'r sector gwirfoddol. Yn yr AALlau hynny lle mae UCDau ar nifer o wahanol safleoedd, mae rhai wedi trefnu'n briodol i un pwyllgor lywodraethu dwy neu fwy o'u UCDau.

Ym mwyafrif helaeth yr AALlau, mae gan yr uwch swyddog AALl gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol am UCDau ac unedau tebyg ystod eang o gyfrifoldebau rheolaeth strategol ym maes cymorth i ddisgyblion a chynhwysiant cymdeithasol.

Fel arfer, cyfrifoldeb y swyddog sy'n gyfrifol am gymorth ymddygiad neu EOTAS yw cyfrifoldeb gweithredol, gan gynnwys cyfrifoldeb am reoli lleoliadau disgyblion, ariannu a chysylltu ag aelodau o staff mewn unedau. Mae gan bob uned bennaeth dynodedig neu athro sy'n gyfrifol am ei gweithrediad o ddydd i ddydd.

Mae polisïau a chynlluniau AALlau yn gwneud cysylltiadau strategol rhwng agweddau ar ddarpariaeth i wahanol grwpiau o ddisgyblion diamddiffyn, ond nid yw eu strwythurau rheoli bob amser yn cefnogi cyflwyno gwasanaeth cydlynol. Y gwendidau cyffredin yw bod gan ormod o bobl gyfrifoldeb am wahanol grwpiau o ddisgyblion, a bod y cysylltiadau rhwng swyddogion cymorth ymddygiad a swyddogion gwella ysgolion yn aneffeithiol.

8.3 Staffio a chymorth allanol

Mae AALlau wedi sicrhau bod gan bob uned, p'un ai'n gofrestredig ai peidio, staff gyda'r cymwysterau priodol. Mae gan bob uned o leiaf un athro cymwys, gyda chefnogaeth aelodau eraill o staff gydag ystod o deitlau swydd, gan gynnwys:

- cynorthwywyr cymorth dysgu;
- cynorthwywyr cymorth ymddygiad;
- gweithwyr ieuenctid;
- gweinyddwyr meithrin;
- gweithwyr allweddol;
- gweithwyr prosiect; a
- gweithwyr cymorth ategol.

Mae AALlau yn darparu cymorth, ychwanegol wedi'i dargedu o'u gwasanaethau cymorth canolog i ddisgyblion yn eu hunedau. Mae'r

Gwasanaeth Lles Addysg yn rhoi cymorth effeithiol ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Mae seicolegwyr addysgol hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i ddisgyblion, aelodau o staff ac weithiau rhieni.

Mae dau o bob tri AALl yn rhoi cymorth a hyfforddiant effeithiol gan gynghorwyr cwricwlwm a swyddogion gwella ysgolion i staff mewn unedau sy'n eu galluogi i gadw i fyny gyda'r datblygiadau mewn addysg brif ffrwd. Mae hyn yn arfer dda.

8.4 Cysylltiadau ag ysgolion

Mae swyddogion AALl a staff UCD yn anelu at ddychwelyd disgyblion o unedau i addysg brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl. Gan nad oes gan lawer o AALlau systemau olrhain disgyblion da, nid oes digon o fanylion ar gael i gefnogi arfarniad llawn o'u llwyddiant wrth gyflawni'r nod hwn. Mae disgyblion iau fel arfer yn symud ymlaen o UCDau i ysgolion prif ffrwd neu arbennig, er bod hyn yn cymryd gormod o amser i'w drefnu yn aml. Fodd bynnag, anaml y mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dychwelyd i'r ysgol. Yn hytrach, mae'r disgyblion hyn yn symud ymlaen i goleg neu leoliad hyfforddiant.

Ar ôl i ddisgyblion drosglwyddo i uned, nid yw athrawon mewn ysgolion yn dangos llawer o ddiddordeb yn eu cynnydd. Fel arfer, nid ydynt yn darparu gwybodaeth asesiad pan fo'r disgybl yn trosglwyddo i UCD, nac yn rhoi cyngor ar gwricwlwm priodol ar gyfer y disgybl. Yn gyffredinol, mae gan athrawon mewn ysgolion ddisgwyliadau isel o'r disgyblion hyn.

Dim ond pedwar AALl sydd wedi datblygu polisïau pendant ar gyfer annog cyfathrebu rhwng unedau ac ysgolion ynghylch y cynnydd a wna disgyblion unigol. Nid yw'r gweddill yn gwneud digon i hyrwyddo adrodd dwy ffordd rhwng unedau ac ysgolion, nac i annog athrawon mewn ysgolion prif ffrwd ac mewn unedau i gyfnewid gwybodaeth, i rannu arfer dda ac i fynychu cyrsiau hyfforddiant gyda'i gilydd.

Lle cofrestrir disgyblion yn ddeuol mewn ysgol ac mewn uned, ni chaiff gwybodaeth am eu presenoldeb a'u cyflawniadau ei rhannu'n gyson rhwng y ddau leoliad. Fel arfer, ni chaiff cyflawniadau disgyblion eu cynnwys yn y data cyffredinol ar gyfer eu hysgol.

Yn yr awdurdodau hynny lle mae'r polisi yn nodi y dylai'r ysgolion gadw disgyblion ar y gofrestr yn ystod yr amser y mynychant ddarpariaeth oddi ar y safle, mae'r broses o ailintegreiddio i'r ysgol fel arfer yn haws. Ar hyn o bryd, nid oes digon o gysylltiadau rhwng ysgolion ac unedau a gynhelir gan AALlau. Yn amlach, mae gan unedau gysylltiadau effeithiol gydag ysgolion cynradd na chydag ysgolion uwchradd neu arbennig.

8.5 Monitro ac arfarnu

Nid yw AALlau yn gwneud digon i fonitro neu arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a wnânt mewn UCDau ac unedau tebyg, nac ansawdd y ddarpariaeth a brynant trwy gontract gyda darparwr allanol.

Fel arfer, nid yw AALlau yn cadw cofnodion digon da o gyflawniad disgyblion mewn unedau, nac yn monitro cost lleoliadau.

Ychydig unedau sydd â systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae unedau mewn cyfnod cynnar iawn o ddatblygu prosesau hunanarfarnu sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn o fonitro addysgu a dysgu, ac ar farnau rhieni, disgyblion neu ysgolion sy'n eu bwydo.

9. Pa mor dda y mae AALlau yn olrhain disgyblion heb le mewn ysgol i sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl addysgol llawn ac i sicrhau y diogelir eu lles?

9.1 Olrhain disgyblion

Mae'n hanfodol y gall AALlau olrhain y ddarpariaeth addysgol a wnânt ar gyfer disgyblion sydd heb le mewn ysgol. Mae olrhain o'r fath yn helpu'r awdurdod i sicrhau bod pob disgybl yn cael eu hawl addysgol cywir. Mae hefyd yn galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau gofal ehangach, yn enwedig o ran amddiffyn a lles plant.

Adroddodd Ofsted yn 2003 nad oedd gan un o'r AALlau Saesneg a arolygwyd system hollol effeithiol ar gyfer casglu gwybodaeth i'w galluogi i olrhain pob disgybl. Amcangyfrifodd arolygwyr fod 9,000 o ddisgyblion a fu ar gofrestri ysgol ym Mlwyddyn 10 'ar goll' yn ystod Blwyddyn 11.

Darganfu'r arolwg cyfredol nad yw o leiaf dau o bob tri awdurdod yng Nghymru yn gallu rhoi cyfrif yn systematig am y ddarpariaeth a wnânt ar gyfer rhan fwyaf eu disgyblion nad ydynt ar gofrestri ysgol, ac weithiau ble y maent. Caiff swyddogion anhawster penodol wrth olrhain rhai o'u disgyblion mwyaf diamddiffyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc mewn teuluoedd dros dro a'r rheiny sy'n byw mewn llochesi.

Enghreifftiau o arfer dda

Mae saith AALl wedi sefydlu systemau sy'n eu galluogi i wella olrhain y ddarpariaeth addysgol a wnânt ar gyfer disgyblion heb unrhyw le mewn ysgol.

Mewn llawer awdurdod, mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn chwarae rôl allweddol wrth ddod o hyd i ddisgyblion sydd 'ar goll'.

Mae rhan fwyaf yr AALlau yn casglu ac yn crynhoi ystod dda o ddata ar blant y gofelir amdanynt, gan gynnwys cofnodion o'u cyrhaeddiad mewn profion ac arholiadau cenedlaethol. Mae ganddynt hefyd gofnodion manwl o bresenoldeb, gwaharddiad, datganiadau o AAA a newidiadau lleoliad. Mae AALlau yn dechrau defnyddio'r data hwn yn well i lywio cynllunio ar gyfer darpariaeth uned cyfeirio disgyblion a/neu leoliadau uned, y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a'r Gwasanaeth Gwersi Gartref.

Er gwaethaf yr enghreifftiau o arfer dda, ar y cyfan mae'n achos pryder nad yw AALlau yn olrhain yn gyson ddisgyblion heb unrhyw le mewn ysgol.

9.2 Hawl

Ychydig iawn o awdurdodau sy'n gallu dangos eu bod yn darparu'r hawl llawn o 25 awr o addysg wythnosol ar gyfer pob disgybl a waherddir. Mewn rhai

awdurdodau, mae swyddogion yn datgan nad oes digon o arian ar gael i wneud y ddarpariaeth hon.

Ym mis Mai 2004, roedd AALlau yn darparu addysg ar gyfer 1601 o ddisgyblion yn eu UCDau a'u hunedau anghofrestredig. Cafodd ychydig dros hanner y disgyblion hyn y cyfle i fynychu'r unedau hyn am 25 awr yr wythnos, er na fanteisiodd bob un ar eu hawl llawn.

Nododd wyth awdurdod eu bod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu 25 awr o addysg i bob disgybl yng nghyfnodau allweddol 1 i 3 sy'n cael eu gwahardd am fwy na 15 diwrnod. Gall y disgyblion hyn fynychu uned amser llawn, neu gallant fod wedi'u cofrestru'n ddeuol ar gyfer addysg ran-amser mewn uned a phresenoldeb rhan-amser yn eu hysgol eu hunain.

Nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, a disgyblion iau yn y 14 awdurdod sy'n weddill, fel arfer yn cael addysg amser llawn tra'u bod yn methu mynychu'r ysgol. Ar gyfer rhai disgyblion, lleoliad uned rhan-amser yw'r unig ddarpariaeth addysgol. I eraill, yn enwedig y rheiny yng nghyfnod allweddol 4, mae'n rhan o raglen cwricwlwm amgen a allai gynnwys gweithgareddau hamdden, coleg neu waith.

Yn 2003, darganfu Estyn mai dim ond dau awdurdod sy'n gwneud darpariaeth amser llawn i ferched beichiog a mamau ifanc. Mae arolygwyr yn argymell y dylai unedau arwahanol ar gyfer mamau ifanc, lle'u bod yn bodoli, gynnig darpariaeth amser llawn, er mwyn sicrhau parhad, dilyniant a chyfle cyfartal.

Mae disgyblion sydd wedi cyflawni troseddau ac sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yn derbyn darpariaeth addysgol annigonol. Mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael gwasanaethau gan Dimau Troseddau Ieuenctid anghenion addysgol ychwanegol sylweddol. Bu llawer o'r disgyblion hyn, gan gynnwys rhai mor ifanc â 13 oed, heb unrhyw le mewn ysgol, na threfniant boddhaol arall ar gyfer eu haddysg, am gyfnodau sylweddol.

Mae darpariaeth ran-amser yn briodol i ychydig ddisgyblion, er enghraifft y rheiny y mae eu hanghenion corfforol neu iechyd meddwl yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddychwelyd yn raddol at ddysgu. Fodd bynnag, dylai pob disgybl arall gael mynediad i addysg amser llawn, briodol. Ar hyn o bryd, mae gormod o ddisgyblion yn mynd heb yr hawl hwn.

Atodiad: Cyfeiriadau

Datblygu cwricwlwm amgen 14-16: Estyn, 2003

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2001-2002: Estyn, Chwefror 2003

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2000-2001: Estyn, Chwefror 2002

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000: Estyn, Chwefror 2001

Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Schools 2002-2003: Education in special schools and pupil referral units: Ofsted, Chwefror 2004

Arfarniad o Effaith Rhaglen GCAH ar Bresenoldeb ac Ymddygiad mewn Ysgolion: Estyn, 2003

Gwahardd o ysgolion yng Nghymru, 2002-2003: SDR 20/2004, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2004

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 1/2004, Ionawr 2004

Darpariaeth AALl ar gyfer Merched Beichiog yn eu Harddegau a Rhieni Ifanc: Estyn, 2003

Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 37/2004, Gorffennaf 2004

Key Stage 4: towards a flexible curriculum: Ofsted, Mehefin 2003

Cymorth i Ddisgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol: Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 3/99 (Diwygiwyd 2001)

Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2003: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2002: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002

Effeithiolrwydd y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Cynlluniau Addysg Personol i Blant y Gofelir Amdanynt (Cyfnodau Allweddol 1-3): Estyn, 2003

Y Wlad sy'n Dysgu: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awst 2001